

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Ionawr 2017

Annwyl Nick,

Diolch i chi am eich llythyr 6 Rhagfyr, yn dilyn y diweddariad a gawsoch gan Dr Andrew Goodall a Dr Kate Chamberlain ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn argymhellion *Adolygiad Marks*.

Fel y nodwyd gennych, tanlinellodd yr ymateb i saith o'r argymhellion ein bod yn ymchwilio i'r materion, gan gynnwys unrhyw deddfwriaeth yn y dyfodol, yn dilyn y Papur Gwyrdd 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd'.

Byddwch yn cofio i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd gael ei gynnal y llynedd i ymchwilio i feysydd posibl ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol i gefnogi gwella ansawdd, integreiddio effeithiol, partneriaeth a llywodraethu gwell o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Ymchwiliodd pennod chwech o'r Papur Gwyrdd i'r cwestiwn a oes gennym drefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau iechyd effeithiol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Yn unol â'r argymhellion hynny a wnaed fel rhan o *Adolygiad Marks*, gofynnodd sut y gellid defnyddio deddfwriaeth i wella capasiti gweithredol AGIC, ei hannibyniaeth, a chydweithredu rhwng AGIC ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y Gweinidog blaenorol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol grynodedb o'r ymatebion, yn ogystal â'r ymatebion yn eu crynswth (ar wahân i'r rhai a nododd eu bod yn dymuno i'w hymateb aros yn gyfrinachol). Ers yr adroddiad cryno, cyhoeddwyd hefyd adolygiad OECD o Ansawdd Gofal Iechyd yn y DU, sy'n awgrymu nifer o gamau gweithredu sy'n croestorri â'r meysydd yr ymgynghorwyd arnynt yn y Papur Gwyrdd, gan gynnwys sut i roi sylw i lais y claf ar faterion y GIG yn effeithiol.

Adeg yr ymgynghoriad fe'i gwnaed yn glir mai mater i'r Llywodraeth newydd yw penderfynu ar unrhyw gamau sy'n deillio o'r Papur Gwyrdd. Rydym bellach yn gweithio i gwblhau'r adolygiad o swyddogaethau AGIC ac AGGCC ac mae fy swyddogion wrthi'n cynnal gwerthusiad i asesu a oes angen deddfwriaeth i sbarduno gwella ansawdd ac integreiddio. Er hynny, rydym yn glir y dylid ystyried deddfwriaeth fel y dewis olaf o safbwynt sicrhau

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

newid ac felly, ar gyfer pob un o'r meysydd uchod mae swyddogion hefyd yn edrych ar ba gamau y gellir eu cymryd yn y tymor byr / canolig o fewn fframweithiau deddfwriaethol presennol. Mae fy swyddogion yn ystyried pob un o'r adolygiadau cyn ac ar ôl y Papur Gwyrdd, ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â chynnal trafodaethau gyda'r Arolygiaethau i sicrhau bod y dewisiadau'n ffrwyth ystyriaeth drylwyr.

Rhagwelaif y bydd fy swyddogion yn rhoi canlyniad y gwerthusiad hwn imi yn y Flwyddyn Newydd ac felly byddai'n gynamserol imi gadarnhau a fydd hyn yn cwmpasu deddfwriaeth. Byddaf yn ymdrechu i roi gwybodaeth briodol i'r pwyllgor am gynnydd yn y maes hwn a'r effaith ddilynol ar yr argymhellion penodol hynny a danlinellwyd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC / AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport